Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

**Llywodraethwr ALl**

**Disgrifiad o'r Swydd**

## 1 Atebolrwydd

- Corff Llywodraethu

## 2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau

- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a llywodraethwyr eraill i godi safonau a gwella canlyniadau i bob plentyn. Gall hyn gynnwys:
  - Cytuno a chefnogi nodau a gwerthoedd yr ysgol
  - Pennu polisïau a blaenoriaethau'r ysgol
  - Ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Datblygu Ysgol neu'r Cynllun Gwella Ysgol
  - Pennu a monitro cyllideb yr ysgol
  - Sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys
  - Sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu cyflawni, gan gynnwys unrhyw anghenion ychwanegol all fod ganddynt
  - Staffio – e.e. apwyntiadau staff, rheoli perfformiad
  - Cynhyrchu cynllun gweithredu a monitro cynnydd yn dilyn archwiliad gan Estyn
  - Cefnogi'r penderfyniadau gweithredol bob dydd a gynhelir gan y pennaeth
  - Helpu i greu 'Adroddiad Blynyddol i Rieni'
  - Hyrwyddo effeithiolrwydd y corff llywodraethu
  - Gweithio gyda Consortiwm Canolbarth y De (CCD) [1] i wella perfformiad yr ysgol
- Gosod targedau cyflawni disgyblion
- Monitro ac adolygu perfformiad a chynnydd yr ysgol
- Hyrwyddo buddion yr ysgol yn y gymuned ehangach
- Ystyried y cyfrifoldebau ehangach fel llywodraethwr sefydliad cyhoeddus

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn, pwyllgorau a phaneli yr ydych wedi'i benodi arnynt
- Ymgymryd â gwaith paratoi digonol cyn cyfarfodydd i'ch galluogi chi i wneud penderfyniadau call a chytbwys

---
[1] CSC includes the Joint Education Service (JES) and where appropriate its trading arm "Links"

- Bod yn ymwybodol o’r mentrau a’r datblygiadau diweddaraf mewn addysg
- Glynu at egwyddorion cyfrifoldeb ar y cyd a gwneud penderfyniadau
- Parchu cyfrinachedd gwaith y corff llywodraethu

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

- Fel cynrychiolydd penodol yr Awdurdod Lleol, ni allwch gael eich gorfodi i gymryd unrhyw gamau, i bleidleisio mewn ffordd benodol nac i gynrychioli un barn wleidyddol.
- Ymddwyn mewn modd briodol a dim mewn ffordd fydd yn dod ag enw drwg i’r Cyngor.
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw o’r corff llywodraethu a’i waith
- Creu a chynnal perthnasau parchus, priodol ac effeithiol gydag aelodau eraill o’r corff llywodraethu
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraethwyr a chynnal y safonau ymddygiad a moeseg uchaf wrth eich gwaith
- Hyrwyddo atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu a pherfformiad y corff llywodraethu

## 3 Datblygu Aelodau

- Mynd i hyfforddiant “sefydlu” a “deall data” hanfodol (ar waith o fis Medi 2013)
- Cyfrannu’n ymarferol at weithgareddau dysgu a datblygu sy’n cefnogi eich rôl a fydd yn galluogi cyfranogiad actif mewn materion yn eich swydd a’ch cylch gorchwyl
- Bod yn gyfarwydd o bolisïau’r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ysgolion ac addysg i lywio’r ddadl a’r blaenoriaethau ar lefel ysgol
- Darllen briffiau a chylchlythyrau i lywodraethwyr